



Cyfres Beirdd yr Uchelwyr

Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Aberystwyth
Golygydd y Gyfres: Ann Parry Owen (apo@cymru.ac.uk)

Rhagair

Mae'r gyfres hon o 44 cyfrol yn ffrwyth prosiect ymchwil a gynhaliwyd yn ffurfiol yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd rhwng 1993 a 2008, gan barhau i gyhoeddi cyfrolau hyd 2015. Gobeithir ychwanegu rhagor at y Gyfres yn y dyfodol, a hefyd ailargraffiadau. Cynhaliwyd y gwaith gan dîm o ymchwilyr dan nawdd Prifysgol Cymru a grantiau gan yr AHRB, AHRC, y Skaggs Foundation ac eraill (ceir manylion yn y cyfrolau unigol), a chyn eu cyhoeddi darllenwyd pob cyfrol gan Fwrdd Golygyddol gweithgar ac ymroddedig iawn. Mabwysiadwyd y prosiect yn un o brosiectau ymchwil yr Academi Brydeinig.

Nod y gyfres yw cyflwyno barddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr a ganai yng Nghymru rhwng 1282 a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg: gwaith y beirdd a gysylltir yn bennaf â mesur y cywydd, ond hefyd y beirdd hynny o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, y Gogynfeirdd Diweddar, a ganai awdlau traddodiadol yn yr un dull â Beirdd y Tywysogion yn y ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg.

Roedd oes Beirdd yr Uchelwyr yn gyfnod cyffrous iawn yn hanes y traddodiad barddol Cymraeg, pan oedd uchelwyr yn barod iawn i noddi beirdd i ganu eu moliant hwy a'u cydnabod, a'r bardd gan hynny'n aelod pwysig o gymdeithas. Yn eu cerddi dysgwn am bob agwedd ar fywyd yn yr Oesoedd Canol diweddar yng Nghymru, gan gynnwys diwylliant materol yr oes a'r drefn gymdeithasol.

Cyhoeddir y cerddi yn orgraff heddiw, wedi eu hatalnodi. Manylir ar y dull golygyddol yn y cyfrolau unigol. Yn achos cerddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a rhai cerddi eraill a ystyrir yn arbennig o anodd, cynigir aralleiriad mewn Cymraeg cyfoes. Mae nodiadau manwl ar bob cerdd sydd yn esbonio unrhyw anawsterau yn y testun a hefyd y cyfeiriadau at bobl, lleoedd a chymeriadau hanesyddol a chwedlonol. O flaen gwaith pob bardd, ceir rhagymadrodd yn trafod bywyd y bardd, ei ddyddiadau, ei noddwyr a natur ei farddoniaeth. Ar ddiwedd pob cyfrol ceir mynegeion a rhestrau llawn o'r llawysgrifau a ddefnyddiwyd yn sail i'r golygiad.

Cyhoeddwyd cyfrolau Cyfres Beirdd yr Uchelwyr rhwng 1994 a 2015 dan hawlfraint Prifysgol Cymru, ac fe'u cynigir yma dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/), a gofynnir yn garedig i chi gydnabod y ffynhonnell, a gwaith y golygyddion unigol, wrth ddyfynnu. Mae'r ffeiliau PDF yn adargraffiadau gyda mân newidiadau neu gywiriadau. Diweddarwyd y ffeiliau Word gwreiddiol, a cheisiwyd cadw mor agos â phosibl at dudaleniad y cyfrolau print. Llwyddwyd i gadw'r cerddi eu hunain ar yr union dudalennau, ond weithiau gall fod hyd at hanner brawddeg o wahaniaeth yn achos y rhagymadrodd a'r nodiadau. Cydnabyddir yn ddiolchgar nawdd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant tuag at y gwaith diweddarau a throsi hwn.

Cyfres Beirdd yr Uchelwyr yn gwyno:

- 44 cyfrol
- dros 1,100 o gerddi a ganwyd rhwng 1282 a 1550
- dros 61,000 llinell o farddoniaeth
- gwaith tua 120 o feirdd hysbys, a tua 75 o gerddi dienw

Tabl yn cynnwys teitlau'r 44 gyfrol:

Rhif	Teitl llawn
1	<i>Gwaith Bledwyn Ddu</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
2	<i>Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch</i> , gol. Nerys Ann Jones ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
3	<i>Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
4	<i>Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli</i> , gol. N. G. Costigan, R. Iestyn Daniel a Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1995)
5	<i>Gwaith Llywelyn Brydydd Hodnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill</i> , gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
6	<i>Gwaith Dafydd Gorlech</i> , gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
7	<i>Gwaith Siôn Ceri</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
8	<i>Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog ac Eraill</i> , gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
9	<i>Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug</i> , gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
10	<i>Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen</i> , gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)

11	<i>Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
12	<i>Gwaith Siôn ap Hywel</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
13	<i>Gwaith Casnodyn</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
14	<i>Gwaith Ieuan Brydydd Hir</i> , gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
15	<i>Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu</i> , gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
16	<i>Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill</i> , gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
17	<i>Gwaith Prydydd Breuan a Cherddi Dychan Eraill o Lyfr Coch Hergest</i> , gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
18	<i>Gwaith Syr Phylip Emlyn ac Eraill</i> , gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
19	<i>Gwaith Gwerful Mechain</i> , gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
20	<i>Gwaith Dafydd Epynt</i> , gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
21	<i>Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
22	<i>Gwaith Mathau Brwmffild</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2002)
23	<i>Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled</i> , gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2003)
24	<i>Gwaith Gruffudd ap Maredudd I: Canu i Deulu Penmynydd</i> , gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003)
25	<i>Gwaith Ieuan ap Rhydderch</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2004)
26	<i>Siôn Cent: Cerddi'r Apocryffa</i> , gol. M.P. Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2004)
27	<i>Gwaith Lewys Morgannwg I</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2004)
28	<i>Gwaith Lewys Morgannwg II</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2004)
29	<i>Gwaith Gruffudd ap Maredudd II: Canu Crefyddol</i> , gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2005)
30	<i>Gwaith Syr Dafydd Trefor</i> , gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005)
31	<i>Gwaith Llawdden</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)
32	<i>Gwaith Madog Dwygraig</i> , gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2006)
33	<i>Gwaith Gruffudd ap Maredudd III: Cerddi Amrywiol</i> , gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2007)
34	<i>Gwaith Llywelyn ap Gutun</i> , gol. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2007)
35	<i>Gwaith Madog Benfras a Beirdd Eraill o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg</i> , gol. Barry Lewis (Aberystwyth 2007)
36	<i>Gwaith Rhys Goch Eryri</i> , gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth 2007)

37	<i>Gwaith Gruffudd Gryg</i> , gol. Barry J. Lewis ac Eurig Salisbury (Aberystwyth 2010)
38	<i>Cywyddau Ymryson Syr Dafydd Trefor</i> , gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2013)
39	<i>Gwaith Raff ap Robert</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2013)
40	<i>Gwaith y Nant</i> , gol. Huw M. Edwards (Aberystwyth, 2013)
41	<i>Gwaith Ieuan Gethin</i> , gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2013)
42	<i>Gwaith Hywel Dafi I</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2015)
43	<i>Gwaith Hywel Dafi II</i> , gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2015)
44	[Cyfrol Atodol] <i>Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion</i> , gol. Enid Roberts (Aberystwyth, 2003)